


YSGOL GYMUNED BODFFORDD


# Llawlyfr Ysgol



Data Gymharol  
Presenoldeb  
a Chanlyniadau  
Profion Cenedlaethol

YSGOL GYMUNED BODFFORDD

# Llawlyfr Ysgol



Gwybodaeth  
i Rieni a  
Gwarcheidwaid a Staff

Diweddarwyd Medi 2008 – Rhys G Roberts

## **Gwybodaeth Am Yr Ysgol**

Enw'r ysgol: Ysgol Gymuned Bodffordd.

Rhif ffôn: 01248 723 384 (does dim rhif ffacs)

E-bost:

[pennaeth.bodffordd@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.bodffordd@ynysmon.gov.uk)

[pennaeth@bodffordd.anglesey.sch.uk](mailto:pennaeth@bodffordd.anglesey.sch.uk)

**Pennaeth ac athro:** Mr Rhys Glynne Roberts B.Add.

**Athrawes:** Miss Ffion Louise Jones

**Cymhorthydd Meithrin (Cyfnod Sylfaen):** Mrs Meryl Goulding

**Cymhorthydd Cyfnod Sylfaen** (10 awr yr wythnos): Mrs Iona Ponsonby Rowlands

**Cymhorthydd Gofal Addysg Arbennig** (llawn amser): Miss Leah Davies

**Cymhorthydd Addysg Arbennig** (15 awr yr wythnos): Mrs Iona Ponsonby Rowlands

**Staff Ategol:**

**Clerc Gweinyddol a Cinio:** Mrs Mandy Evans

**Gofalwraig:** Ms Einir W. Jones

**Goruchwylwyr Clwb Brecwast:** Ms Einir W. Jones a Mrs Eleanor W Jones

**Cadeirydd Llywodraethwyr:** Cyngorydd William Hughes

## **PATRWM DIWRNOD YN YR YSGOL**

Sesiwn y bore: 9.00-12.00

**Mae gweithgareddau yn dechrau am 9.00 bob bore.**

Sesiwn y prynhawn:

Adran Y Babanod a Meithrin - 1.00 - 3.00pm

Adran Iau - 1.00 - 3.30pm

Amseroedd Egwyl: 10.30 - 10.45am; 12.30 - 1.00pm; 2.00 - 2.15pm

Bellach mae gan yr ysgol system gloch ar amseroedd i nodi dechrau sesiynau a gwersi.

## **TREFNIADAETH**

### **Staffio**

Mae dau ddsbarth yn yr ysgol yng ngofal dau o athrawon ac fe rennir yr ysgol i ddsbarthiadau fel a ganlyn:-

Athro / Athrawes	Dosbarth / Blwyddyn
Miss Ffion Louise Jones (Cymhorthydd Meithrin – Mrs Meryl Goulding a Mrs Iona Ponsonby Rowlands)	Y CYFNOD SYLFAEN (Meithrin) / Derbyn Blwyddyn 1 a 2
Mr Rhys Glynne Roberts	CYFNOD ALLWEDDOL 2 Blwyddyn 3, 4, 5 a 6

## **'CYD-WEITHIO I SICRHAU'R GORAU'**

Dymuem i blant Ysgol Gymuned Bodffordd

- Ddatblygu'n Gymry dwyieithog
- Ddatblygu i'w llawn potensial
- Feddu ar hyder ac annibyniaeth
- Dderbyn cyfle cyfartal ymhob agwedd
- Ymfalchïo yn yr Ysgol a'r gymuned
- Fyw a dysgu mewn awyrgylch sy'n cynnig gofal, hapusrwydd a sicrwydd

Credwn

- Dylai rhieni chwarae ran allweddol yn addysg eu plant
- Fod parch a chwarteisi yn sgiliau sylfaenol bywyd

### Diogelwch ac Amddiffyn Plant

Mae diogelwch a gofal disgyblion yn fater pwysig iawn i'r ysgol a'r corff Llywodraethol. Tra bydd y plant yn yr ysgol gwneir pob ymdrech rhesymol i sicrhau bod yr adeilad, y tiroedd o amgylch, ethos, trefniadaeth a threfn disgyblaeth yr ysgol yn cyfrannu i sicrhau diogelwch disgyblion ac aelodau staff. Pe cyfyd mater sy'n peri pryder o ran yr adeilad a'r tiroedd, cysylltir â'r adrannau perthnasol i gywiro'r broblem hwnnw mor fuan ac mae'r adrannau hynny yn gallu ac yn fodlon. Gwneir asesiadau risg niferus yn achlysurol. Mae'r asesiadau risg hynny i'w gweld ar gais i'r Pennaeth. Mae'r rhestr hirfaith o asesiadau angenrheidiol wrthi'n cael sylw dyledus yn ystod 2005/06. Mae systemau niferus yn eu lle sy'n rhan o strwythur diogelu, amddiffyn plant a gweithredu mewn achos o argyfwng. Gofynnir i rieni gytuno i ddilyn y systemau hyn ac i ddiweddarau gwybodaeth cysylltu yn ystod y flwyddyn addysgol.

Os bydd angen, cysylltir a'r rhiant, on dos methir, mewnachos difrifol, yna eir a'r plentyn i Adran Ddamweiniau Ysbyty Gwynedd.

### Rheoli Risg

Mae system gan yr ysgol, y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i reoli risg fel rhan o'r strategaeth sicrhau lechyd a Diogelwch. Mae diogelwch holl ddefnyddwyr ac ymwelwyr a'r ysgol yn flaenllaw. Wrth adnabod risg, ymdrechir gwneud popeth o fen rheswm i leihau neu i negyddu'r risg hwnnw.

### Cynllun Diogelwch y Ffordd

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos a Ceri Williams, Swyddog Addysg Diogelwch y Ffordd Ynys Môn. Caiff dau ddisgybl ei dewis yn flynyddol ym Mlwyddyn 6 fel Swyddogion Diogelwch yr ysgol. Dewisir dau ddisgybl o Flwyddyn 5 fel Is-swyddogion hefyd i gysgodi gwaith y prif swyddogion. Trefnir nifer o weithgareddau

### Maes Parcio



***I osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddamwain o unrhyw fath, ni ddylai rhieni na phlant gerdded drwy'r maes parcio wrth ddod i'r ysgol nac wrth adael ar unrhyw gyfrif.*** Dylai pawb ddefnyddio'r llwybrau troed pwrpasol. Mae'r cais hwn yn rheol bwysig sydd yn rhan o strategaeth lechyd a Diogelwch yr ysgol ac yn rhan o gamau'r ysgol i leihau risg o ddamweiniau. Mae'r cynnodau cyn ac ar ôl ysgol yn gyfnodau prysur a pheryglus i gerddwyr a phlant. Helpiwch ni, os gwelwch yn dda, i osgoi unrhyw bosibilrwydd o ddamwain drwy gydymffurfio â'n cais.

Mae'n ofynnol fod gan bob ysgol drefn diogelwch mewn perthynas â meysydd parcio. Yn anffodus bu damweiniau angheuol a pheryglus mewn meysydd parcio ysgolion yn y gorffennol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn mynnu ein bod yn sicrhau diogelwch defnyddwyr mewn perthynas â meysydd parcio. **Yn yr ysgol hon dim ond staff dysgu, staff cefnogol, athrawon llanw, athrawon cefnogol (offerynnau cerddorol a.y.b.), gweithwyr y Mudiad Meithrin, y Tacsï a cheir defnyddwyr 'anabl' drwy drefniant a chytundeb o flaen llaw'r Pennaeth, sydd â chaniatâd pendant a swyddogol i ddefnyddio'r maes parcio ym mlaen yr ysgol. Dim ond lle i hyd at 5 car yn unig sydd yn y maes parcio.**

Llecyn bach yw'r maes parcio ac ni ellir sicrhau bod digon o le i barcio car yn ddiogel. Ni ddylai unrhyw un sydd yn defnyddio'r maes parcio gefnu allan i'r ffordd fawr i adael y maes parcio er diogelwch.

### Cynllun Ysgolion Iach

Mae'r ysgol ar ei thrydedd flwyddyn o'r Cynllun Ysgolion Iach. Mae bod yn rhan o'r cynllun wedi bod yn fuddiol iawn. Mae llawer o arferion gwahanol wedi'u sefydlu

### Amddiffyn Plant

Yn unol â pholisi Amddiffyn Plant Ynys Môn, mae gan yr ysgol bolisi Amddiffyn Plant. Mae'r polisi yn bodoli i sicrhau nad yw plant yn cael eu cam-drin yn yr ysgol na thu hwnt. Mewn achosion ble fo honiadau o gam-drin mae strwythurau tynn i'w dilyn.

Fel rhan o'r drefn Amddiffyn Plant mae strwythurau gennym sydd yn gofyn caniatâd rhieni i ddisgyblion ddefnyddio'r rhyngwyd, yn gofyn hawl rhiant i'r ysgol dynnu lluniau plant ar waith at ddefnydd ysgol, hawl i aelodau o'r cyfryngau dynnu lluniau at ddefnydd papur newydd a chaniatâd i unigolion hysbys wneud fidio o gyflwyniadau ysgol.

Mae amddiffyn Plant yn fater pwysig a difrifol ond mae'r polisi a'r gweithdrefnau sydd gennym yn bodoli i sicrhau diogelwch a lles eich plentyn chwi. Pe byddech yn dymuno trafod y polisi, cysylltwch â'r Pennaeth.

### **Cyfle Cyfartal**

Dylai pob unigolyn dan ein gofal dderbyn addysg o werth cyfartal o fewn cynllun cyffredinol yr ysgol. Ceisiwn greu awyrgylch diogel, ymddiriedus a symbylol ym mhob cwr o'r ysgol ac anogir cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd. Rhoddir bri ar gyfraniad pob unigolyn a pherchir ei syniadau a'i farn. Gosodir disgwyliaidau ymddygiad teg a rhesymol ar y plant, disgwyliaidau a fydd yn arwain at ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion a hawliau eraill. Ceisiwn sicrhau fod y plant yn derbyn negeseuon cadarnhaol o gydraddoldeb. Ceisir osgoi creu gwahaniaethau o ran rhyw yn y tasgau a osodir i blant, e.e. mewn Addysg Gorfforol, Technoleg, Celf; yn nhrefniadaeth y dosbarth a chyfansoddiad grwpiau, wrth greu rhesi, wrth rannu dyletswyddau, wrth gyfeirio plant at fannau ag offer chwarae a gweithio. Sicheir fod gweithgareddau allgyrsiol yn agored i bawb. Sicheir fod dulliau canmol a cheryddu yn gyffredin i bawb. Manylir ymhellach ar yr agwedd yma yn ein Polisi Cyfle Cyfartal.

### **Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol / Ymateb i achosion o hiliaeth**

Yma, yn Ysgol Gymuned Bodffordd, dymunwn sicrhau fod pob disgybl yn derbyn y cyfle i feithrin sgiliau angenrheidiol bywyd. Mae angen i ni sicrhau a darparu amgylchedd a fydd yn galluogi disgyblion i feithrin y gwerthoedd, yr agweddau a'r sgiliau personol, cymdeithasol sylfaenol a fyddai'n angenrheidiol mewn cymdeithas aml ddiwylliant cyfoes. Ystyriwn fod sylwadau hiliol gan unrhyw un sydd yn ymwneud a'r ysgol yn hollol annerbyniol.

Ymdrecha'r ysgol i beidio a gwahaniaethu rhwng unrhyw un ar sail hil, crefydd, cenedligrwydd, ethnigedd na thras genedlaethol. Ymgeisiwn hyrwyddo tegwch i bawb drwy'r addysg a ddarperir yn yr ysgol. Ymgeisiwn bob gafael i osgoi unrhyw fath o wahaniaethu goddefol all fod yn rhwystr i ddysgu. Ni fyddem yn derbyn ystrydebu a rhagfarn ac yn ei gystadlu pe cyfyd yr angen. Lle bo'n bosibl, byddem yn dathlu'r gwahaniaeth a chyfoeth diwylliannol sydd o fewn ein cymuned?

### **Atal Hiliaeth**

Mae gan bob disgybl yr hawl i dderbyn y gorau y gallem gynnig o ran addysg a gweithgareddau ymylol. Nid ydym yn derbyn unrhyw ffurf o hiliaeth neu ymddygiad hiliol. Pe digwyddai achosion o'r fath, byddem yn ymateb yn unionsyth i osgoi ailadrodd ymddygiad / digwyddiad o'r fath. Mae'n ofynnol gwneud cofnod o achosion o sylwadau neu ymyrraeth hiliol a chysylltu â'r Awdurdod Addysg.

### **Crefydd**

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiadau uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. Yn unol â gofynion y cwricwlwm cenedlaethol cyflwynir i'r plant gwahanol grefyddau a chredoau a geir yn y byd, yn ogystal â moesau a chanllawiau ar gyfer byw yn y byd tu allan i ffiniau'r ysgol.

Cynhelir gwasanaethau dyddiol yn yr ysgol yn dilyn gofynion y ddeddf. Bydd y gwasanaethau yn delio ag amrywiaeth o themâu, gyda'r plant a'r athrawon yn gyfrifol am eu cyflwyno. Amseroedd gwasanaethau yw: 9.00am yn ddyddiol. Darperir cynllun blynyddol o themâu gwasanaethau'r ysgol.

### **Addoliad**



Nid oes cysylltiadau crefyddol uniongyrchol na ffurfiol. Croesewir gweinidogion a chyfeillion i'r ysgol i'n cynorthwyo yn achlysurol. Bydd y plant yn eu tro yn cael mynd i'r capel i gymryd rhan mewn gwasanaethau fel Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Y nod yw cael yr ysgol i chwarae amlwg a phriodol ym mywyd ysbrydol y gymuned.

Os nad yw rhiant yn dymuno i'w blentyn gymryd rhan mewn gwasanaethau nac ychwaith mewn astudiaethau

Beiblaidd/Crefyddol yna, yn ôl ei gydwbybod, mae hawl gan y rhiant eithrio'r plentyn o'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol a gynigir. Dylid hysbysu'r Pennaeth o'r dymuniad i wneud hynny drwy lythyr eglur

Cynhelir gwasanaethau torfol yn yr ysgol hon yn ddyddiol am 9.00am. Dilynr un gwasanaeth boreol gan ymarfer canu ysgol gyfan.

**Cofiwch – mae'r staff yma i'ch helpu chi a'ch plentyn. Mae hapusrwydd eich plentyn yn yr ysgol yn bwysig iawn i mi fel Pennaeth ac i'r staff. Hoffwn eich cydweithrediad i sicrhau hynny.**

### **GWISG YSGOL**

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol. Teimlir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. Mawr obeithiwn, felly, y bydd rhieni yn barod i gefnogi gwisg swyddogol yr ysgol. Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod cost yr eitemau gwis ysgol mor isel a phosibl heb hepgor ansawdd da. I gadw'r gost yn isel disgwylir yn garedig i ddisgyblion gadw at ddau eitem gwisg gorfodol.

Y wisg yw :-

Crys Polo GWYN neu 'BURGUNDY' gyda logo'r ysgol arno.

Crys Chwys 'BURGUNDY' gyda logo'r ysgol arno.



### **Gwisgoedd Disgyblion y Dosbarth Meithrin**

Mae yna gyfle i'r plant Meithrin gael gwisgo gwisg ysgol os yw hynny'n dymuniad gan rieni. Mae hyn yn dilyn ymholiad gan rai o'r rhieni. Peth dewisol, cwbl wirfoddol yw hyn. Nid oes gorfodaeth o gwbl o du'r ysgol i'r plant hyn orfod gwisgo gwisg ysgol. Croesewi'r plant yr un mor gynnes yn eu dillad lliwgar eu hunain.

### **GELLIR ARCHEBU CRYSAU POLO / CHWYS DRWY'R YSGOL YN UNIG Crysau Polo / Crysau chwys – o £5.50 a o £6 yn ol maint**

Trefnir archebion yn flynyddol o gwmpas y Pasg. Gallwch wneud trefniadau ynglŷn ag gwisg ysgol drwy Mrs Mandy Evans, Ysgrifenyddes a Chlerc y Pennaeth.

**Rhodddwn arweiniad i chi labelu neu roi enw ar label dillad eich plentyn er hwylustod i'r staff, y plant ac i osgoi colledion a chymysgu dillad.**

---

### **Presenoldeb ac Absenoldebau Disgyblion – PWYSIG**

Cynghorir rhieni i sicrhau fod pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gwerthfawrogwn nodyn yn esbonio pob absenoldeb er mwyn osgoi ymholiadau swyddogol. Mae disgwyl i ni fel ysgol reoli presenoldeb a chadw cofnod o absenoldebau plant.

Eich cyfrifoldeb chi fel rhiant yw hysbysu'r ysgol o bob achos o absenoldeb.

Mae'r ysgol yn defnyddio trefn gyfrifiadurol ac electronig o gadw cofrestr presenoldeb disgyblion pob dydd. Bydd y drefn yn galluogi'r Awdurdod Addysg gadw golwg ar batrymau presenoldeb, absenoldebau a thriwantaeth posibl

mewn ysgolion. Bydd y drefn yn amlygu achosion o absenoldeb heb ganiatâd a bydd pwysau o'r Canol arnom fel ysgol i olrhain absenoldebau heb ganiatâd a bydd rhaid cyfeirio absenoldebau heb ganiatâd (rhaid nad ydym yn derbyn rheswm amdanynt) i sylw'r Swyddog Addysg a Lles.

- Bydd y gofrestr yn agored yn ddyddiol tan 9.30am.



- Mewn achos o absenoldeb dylid hysbysu'r ysgol o absenoldeb eich plentyn ar y bore cyntaf. Mae angen gwneud hyn er mwyn cadarnhau dilysrwydd absenoldeb ac i gydymffurfio a threfniadau lechyd a Diogelwch h.y. bydd cysylltu yn arddangos bod rhiant yn ymwybodol o absenoldeb gan osgoi unrhyw amheuaeth neu bosibilrwydd o driwantiaeth.
- Os na dderbynnir gair neu alwad ffôn cyn 10.30am, bydd yr ysgol yn ymdrechu i gysylltu i gadarnhau bod plentyn yn absennol gyda gwybodaeth y rhiant. Eto, bydd hyn yn rhan o drefn sicrhau lechyd a Diogelwch disgyblion. Gan fod yr ysgol 'in loco parentis' rhwng 8.50 a 3.40, rhaid bellach sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a bod rhieni yn dawel eu meddwl fod eu plentyn yn bresennol yn yr ysgol fel y disgwyl.
- Mae'r drefn cofrestru electronig newydd yn gosod canllawiau a chyfarwyddyd clir i ysgol osod rhesymau pendant a dilys dros absenoldeb disgybl. Bydd angen cyflwyno nodyn i egluro absenoldeb disgybl ar ddydd cyntaf dychweliad y plentyn i'r ysgol ar ôl salwch.
- Dylid gofyn caniatâd y Pennaeth o flaen llaw pe cyfyd angen i blentyn golli sesiwn o ysgol e.e. apwyntiad doctor, apwyntiad ysbyty, apwyntiad deintydd, gweithgaredd addysgol. Byddai dod a cherdyn neu lythyr apwyntiadau o'r fath er mwyn i'r ysgol wneud copi at bwrpas cofnodi absenoldeb yn hwyluso'r drefn i bawb ac yn osgoi'r angen am nodyn eglurhad. Buasai'r cerdyn neu lythyr apwyntiad gwreiddiol yn cael ei ddychwelyd wrth gwrs.
- Mae gan yr ysgol drefn bendant i rieni ofyn caniatâd y Pennaeth i esgusodi disgybl o'r ysgol am gyfnod o wyliu teuluol yn ystod amser tymor - hyd at 10 diwrnod ysgol. Ystyrir absenoldeb o'r fath yn absenoldeb a chaniatâd. Rhaid nodi absenoldeb (oherwydd gwyliau) sydd yn mynd dros y 10 diwrnod ysgol a ganiateir yn absenoldeb heb ganiatâd.
- Gwerthfawrogi cyswllt o flaen llaw am ganiatâd i blentyn golli sesiwn ysgol oherwydd rheswm arall heblaw am salwch neu apwyntiad. Mae'r drefn cofrestru yn manylu ar yr hyn a derbynnir fel absenoldeb gyda chaniatâd a'r hyn rhaid ei nodi yn absenoldeb heb ganiatâd.

Rydym yn gwerthfawrogi bod pethau a materion yn codi ar frys a heb rybudd. Mae'r ysgol hon, ei threfniadau a'r staff yn synhwyrol i hynny, ond fe werthfawrogi'r pe gallech gysylltu â ni a rhoi rheswm dros absenoldeb eich plentyn pan allwch, *ond yn bendant ar ddychweliad y plentyn i'r ysgol.*

### **Amcanion yr Ysgol** - "Cydwethio i sicrhau'r gorau."

Amcan yr ysgol hon yw rhoi'r profiadau gorau posibl i'r plant, i sicrhau eu datblygiad yn y sgiliau sylfaenol er mwyn paratoi'r plant ar gyfer byw a chymdeithasu yn y byd cyfoes.

### **Amcanion Penodol**

- Darllen yn rhugl gan ddangos dealltwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Datblygu llawysgrifen ddealladwy a safon foddhaol o'r sgiliau sylfaenol yn y ddwy iaith.
- Cyfathrebu yn y ddwy iaith.
- Datblygu sgiliau gwranddo.
- Defnyddio cyfrifiaduron a chyfrifianellau'n ddeallus.
- Defnyddio sgiliau cyfrifo.
- Ymestyn eu sgiliau a dealltwriaeth o Wyddoniaeth.
- Parchu pobl, eu hunain a'r amgylchedd.
- Datblygu dealltwriaeth o le ac amser.
- Dod yn hyderus drwy addysg gorfforol a gwaith maes. Defnyddio'r amgylchedd lleol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu.
- Defnyddio cerddoriaeth, drama a chelf fel mynegiad personol.

### **Rôl a Gwaith y Corff Llywodraethol**

Mae rôl y llywodraethwyr yn hanfodol i ddatblygiad yr ysgol, ac yn cynorthwyo drwy eistedd fel bwrdd ymgynghorol a chyfarwyddol. Gwnânt benderfyniadau ynglŷn â sut mae'r ysgol yn cael ei gweithredu. Bydd y corff llawn yn cyfarfod un waith bob tymor, a cheir cyfarfodydd rheolaidd o'r is-bwyllgorau i drafod agweddau staffio, cyllid, addysg arbennig, cwricwlwm ac adeiladau.

Mae llywodraethwyr yn cael eu penodi i gynorthwyo :-

- I benderfynu a thrafod llwybr strategol yr ysgol.
- I benderfynu beth sydd yn cael ei ddysgu
- I safoni ymddygiad y plant.
- I gyfweld a phenodi staff.
- I benderfynu sut i wneud y defnydd gorau o gyllideb yr ysgol.

Ceir gynrychiolaeth o'r personau hyn ar y Corff Llywodraethwyr:-

- Rhieni
- Athrawon a staff ategol yn yr ysgol.
- Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg
- Cynrychiolwyr cynghorau lleol.
- Cynrychiolwyr y gwasanaethau masnachol.

Mae rhiant-lywodraethwr :-

- Gyda phlentyn yn yr ysgol.
- Yn cael ei ethol / hethol gan rieni'r ysgol.
- Yn gwasanaethu fel bob llywodraethwr arall am gyfnod o 4 blynedd.

Mae Rhiant - Llywodraethwr yn allweddol ar gyfer dod â barn rhieni i sylw'r corff cyfan, ond gallant drafod fel unigolion. Mae ganddynt statws cyfartal a'r hawl i fwrw pleidlais.

Byddwch chi fel rhieni yn ethol 3 Rhiant - Llywodraethwr am gyfnod o 4 mlynedd.

### **Aelodaeth Presennol Corff Llywodraethol Ysgol Bodffordd**

Cadeirydd:	<b><i>Y Cynghorydd Mr W. Hughes</i></b>
Is-Gadeirydd:	<b><i>Mrs Nia Wyn Jones</i></b>
Clerc:	<b><i>Mrs Gladys Hughes</i></b>
Cynrychiolydd yr Awdurdod Addysg Leol:	<b><i>Mrs Nia Wyn Jones</i></b>
Cynrychiolwyr y Rhieni:	<b><i>Mrs Gaynor Jones</i></b> <b><i>Mrs Sandra Ewing</i></b>
Aelodau Cyfetholedig:	<b><i>Mrs Elena Evans Jones</i></b> <b><i>Mr Gareth Parry</i></b>
Cynrychiolydd Athrawon:	<b><i>Miss Ffion L Jones</i></b>
Cynrychiolydd Staff Ategol:	<b><i>Mrs Meryl Goulding</i></b>
Cynrychiolydd Cyngor Cymuned:	<b><i>Mr Einion Williams</i></b>
Cynrychiolydd Cyngor:	<b><i>Mr. W Hughes</i></b>
Ex-officio:	<b><i>Rhys G. Roberts (Pennaeth)</i></b>

### **Mynediad i'r Ysgol ac Apeliadau**

Dalgych Bodffordd, Llangwyllog a Mona a wasanaethir yn bennaf gan Ysgol Gymuned Bodffordd.

Bydd plant sydd wedi derbyn eu pen-blwydd yn dair oed cyn Medi'r 1af yn cael mynediad i'r Feithrin pob prynhawn ac yna'n cychwyn yn llawn amser yn y Medi canlynol.

Os gwrthodir lle i ddisgybl yn Ysgol Bodffordd, bydd gan y rhieni hawl i wneud apêl i'r Awdurdod Addysg ac i'r Cynulliad.

Dylai rhieni sydd yn dymuno trosglwyddo eu plentyn o ysgol gynradd arall (a heb fod yn newid cyfeiriad) lenwi ffurflen dewis rieni gan nodi rhesymau am y cais, a'i gyflwyno i'r Awdurdod Addysg ond nid cyn trafod yn fanwl gyda'r Pennaeth.

Anogir rhieni i gymryd diddordeb yn addysg eu plant ac i hyrwyddo pob ymdrech i feithrin perthynas iach rhwng yr ysgol a'r cartref. Gobeithia'r ysgol sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth

### **Polisi Iaith yr Ysgol - Y Sefyllfa Ddwyieithog**

Mae'r mwyafrif o'r plant sy'n mynychu'r ysgol hon yn dod o gartrefi Cymraeg ac yn naturiol felly prif gyfrwng yr addysg yw'r Gymraeg. Rydym yn trwytho'r plant sy'n dod o gartrefi Di-Gymraeg yn eu hail iaith o'r cychwyn cyntaf ac mae'r polisi yma wedi profi'n llwyddiannus iawn - diolch i waith diflino'r athrawon a chefnogaeth a chydweithrediad y rhieni. Da yw deall fod nifer o rieni Di-Gymraeg yn ymdrechu i ddysgu'r iaith.

Rhoddir lle teilwng i ddysgu'r Saesneg drwy'r ysgol nid yn ffurfiol ar y dechrau ond trwy nifer o weithgareddau amrywiol lle mae'r plant yn mwynhau ac yn elwa o'u profiadau - gemau, chwaraeon, canu, rhaglenni teledu a.y.b.


Nod yr ysgol yw sicrhau fod pob plentyn yn ddwyieithog erbyn cyrraedd 11 oed, yn gallu llefaru'n glir ac ystyrllon, yn darllen yn ddidrafferth ac yn gallu mynegi ei hun yn ysgrifenedig. Anfonir pob gohebiaeth o'r ysgol i rieni yn ddwyieithog.

Yn unol â pholisi'r Awdurdod, y Gymraeg yw prif gyfrwng y dysgu yn yr ysgol hon.

Pan ddaw plant newydd i'r ysgol, nad ydynt yn Gymry, fe sicrheir eu bod yn hapus a chartrefol cyn gwneud popeth posibl i ddysgu'r Gymraeg iddynt, a gwneir hyn cyn gynted ag sydd bosibl er mwyn iddynt allu cymryd eu lle naturiol ym mywyd yr ysgol a'r gymdeithas. Bydd trefniadau yn cael eu gwneud i'r plentyn ymweld am dymor ag Uned Iaith Llangedfni, lle ceir darpariaeth ddwys a thrylwyr dan arweiniad arbenigol.

Polisi dwyieithog yw polisi sirol Ynys Môn, ac amcenir i'r plant gyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd erbyn iddynt adael yr ysgol. Byddwn yn chwilio am gynnydd cytbwys yng ngwybodaeth y plant o'r ddwy iaith.

## DISGYBLAETH



Ein nod yw creu a chynnal o fewn cymuned ysgol, awyrgylch o gyd-fyw a chydweithio hapus a fydd yn rhoi bodolaeth i ddysgu effeithiol. Credwn fod trefn a pharch at eraill yn hanfodol mewn creu awyrgylch o'r fath.

Mae gennym drefn ddisgyblaeth sydd yn seiliedig ar bolisi ymddygiad. Rhoddir pwyslais ar wobrwyo ymddygiad da ac ymddygiad cadarnhaol. Mewn achosion o gamymddwyn mae trefn disgyblu bendant. Defnyddir sancsiynau mewn achosion o gamymddwyn. Ystyrir tynnu breintiau hefyd pan fo achosion o gamymddwyn hefyd.

Disgyblir y plant yn unol â pholisi llawn y Corff Llywodraethol. Manylir ar y drefn yn y Polisi Disgyblaeth ac Ymddygiad (copi llawn ar gael yn yr ysgol).

### Amcanion

- I feithrin hunanddisgyblaeth yn y disgyblion
- I feithrin parch at eiddo ysgol ac at eiddo eraill
- I feithrin mewn disgyblion barch tuag at amgylchedd yr ysgol
- I feithrin ymwybyddiaeth o'r angen am reolau yng nghymuned yr ysgol.

Gweler Polisi Hyrwyddo Ymddygiad yr ysgol.

### Rheolau Ysgol Gymuned Bodffordd

Gosodir rheolau syml er mwyn hwylustod i bawb. Wrth weithredu'r rhain rhoddir sefydlogrwydd i'r plant, ynghyd a hunan ddisgyblaeth a pharch tuag at bob aelod o'r ysgol, yr adnoddau a'r amgylchedd.

Cadw at y 4 rheol greiddiol:

- **Byddwch yn ffrind da i bawb yn yr ysgol gan barchu hawl pob un i gael eu parchu eu hunain.**
- **Cerddwch o gwmpas ac yn yr ysgol.**
- **Gweithiwch yn galed yn yr ysgol bob amser.**
- **Cadwch y dosbarthiadau, y neuadd a'r tir o amgylch yn daclus.**

Manylir ymhellach ar y rheolau hyn yn yr adran Arweiniad i Ddisgyblion.

Ni chaniateir fferins' na theganau yn yr ysgol. (Mae hyn er mwyn osgoi colledion ac anghytuno ymysg plant. Er hynny, efallai bydd gofyn i blant ddod a thegan i'r ysgol fel rhan o'u gwaith dosbarth efallai o bryd i'w gilydd. Bydd hyn yn iawn.)

Caiff y plant ddod a ffrwyth neu byr-fwyd iach i'w fwyta yn ystod amser chwarae'r bore. Mae hyn yn rhan o strategaeth yr ysgol i fod yn Ysgol Iach. Cadarnheir y strategaeth yma gydag ymweliad gan nyrs yr ysgol, a fydd yn dod i sgwrsio a'r plant am agweddau o addysg iechyd/deintyddol ac ym mholisiau perthnasol i hybu iechyd. Ni chaniateir creision, siocled a phethau cyffelyb.

### Taclusrwydd

Gobeithir y bydd pob plentyn yn gwneud ymdrech arbennig i gadw'r ysgol yn daclus drwy:

- gadw ei got a'i fagiau yn y manau cywir.
- rhoi sbwriel yn y blychau sbwriel ac yn y biniau SULO bach tu allan ar dir yr ysgol.
- gadw ei wisg yn daclus a thwt.

Ni chaniateir i unrhyw blentyn fynd allan drwy giât yr ysgol, yn ystod oriau'r ysgol am unrhyw reswm, os nad yw mewn gofal rhiant/warcheidwad.

### Hyrwyddo Ymddygiad Da - ADRAN Y BABANOD a'r ADRAN IAU

#### Gwobrwyo

Os bydd eich plentyn yn ymddwyn a gweithio'n dda yn yr ysgol caiff ei wobrwyo drwy dderbyn sticer i ddangos hynny. Tynnir sylw'r Pennaeth i achosion arbennig o dda.

## **Disgyblu**

Os bydd eich plentyn yn camymddwyn, gwneir defnydd o'r gadair dawel lle caiff y plenty gyfnod i 'feddwl' a thawelu cyn dychwelyd at y weithgaredd dosbarth. Gwobrwyir ymddygiad day n Nosbarth 1 drwy system sticeri amrywiol. Tynnir breintiau a chyfrifoldebau oddi ar blant hyn yr ysgol. Mae gan Dosbarth 2 system cardiau gwobrwyo lle bydd posib i blat gasglu pwyntiau da amrywiol am waith etc. Mae cardiau pwyntiau gwael hefyd fydd angen eu hosgoi.

Mae Os bydd y camymddwyn yn parhau a hynny'n gyson, bydd yn cael ei gyfeirio at bolisi Disgyblaeth a Chynnal Ymddygiad yr ysgol a byddwn yn cysylltu â chi'r rhieni i drafod pryderon ymhellach.

## **ARWEINIAD I'R PLANT AR YMDDYGIAD**

Gallaf gael fy ngwobrwyo am:	Gallaf gael fy nghosbi am:
<ul style="list-style-type: none"><li>• ddangos agwedd dda at fy ngwaith</li><li>• cwblhau gwaith cartref</li><li>• gwrteisi</li><li>• bod yn sensitif i deimladau plant eraill</li><li>• ddweud y gwir</li><li>• gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol</li><li>• gynrychioli'r ysgol</li><li>• rannu gydag eraill</li><li>• ymddwyn yn dda</li><li>• wneud fy ngorau</li><li>• wneud ffrindiau</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• beidio trio gyda fy ngwaith dosbarth</li><li>• dorri rheolau dosbarth neu ysgol</li><li>• fwlio plant eraill</li><li>• regi</li><li>• ddweud celwydd / anwiredd</li><li>• herio a bod yn frwnt gyda phlant eraill</li><li>• fod yn anghwrtais neu'n haerllug</li><li>• fynnu cael fy ffordd fy hun</li><li>• beidio gwrando ar yr athrawon neu bobl eraill yn yr ysgol</li><li>• ddwyn gwarth ar yr ysgol</li></ul>

## **GOFAL BUGEILIO**

Yr athro / athrawes dosbarth sydd yn gyfrifol yn bennaf am les a gofal bugeiliol eu disgyblion, ond ceisia'r staff cyfan ddiogelu lles yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn o beth.

Mae gofal bugeiliol yn gyfrifoldeb pob aelod o staff. Dyma rai o'u dyletswyddau:

- Gofalu bod y plant yn cydymffurfio a rheolau prydlondeb a phresenoldeb yr ysgol.
- Cyflwyno pob gwybodaeth angenrheidiol a llythyrau i'w plant fynd adref.
- Paratoi adroddiadau i'r rhieni ar ddiwedd blwyddyn ysgol ar ddatblygiad a chyraeddiadau eu plant.
- Atgyfnerthu rheolau a threfn gweithredu'r ysgol.

## **Y Cwricwlwm**

### **Nod**

Ein nod yn Ysgol Bodffordd yw ceisio sicrhau fod y plentyn - erbyn cyrraedd un ar ddeg oed - yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl ac yn gallu darllen ac ysgrifennu'r ddwy iaith; â meistrolaeth a dealltwriaeth o rifedd; yn ymwybodol o gyfoeth a gwybodaeth y byd gwyddonol, mynegiannol a'r dyniaethau.

### **Amcanion cyffredinol**

- Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb y plentyn.
- Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fydd sy'n gyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg.
- Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd, a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
- Cynorthwyo'r plentyn i fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.

- Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
- Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anafanteision amrywiol.
- Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Ceisiwn ddarparu cwricwlwm fydd yn galluogi'r plentyn:-

- i ddatblygu'r sgiliau elfennol - siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu a sgiliau rhifedd;
- gael y cyfle i astudio a dehongli'r amgylchfyd;
- i feithrin agweddau cymdeithasol iach a chymwynasgar;
- i dderbyn profiadau amrywiol cyfoethog a'r cyfle i'w mynegi.

Mae'r cwricwlwm yn ymgorffori agweddau ar fathemateg a gwyddoniaeth, technoleg, dyniaethau (hanes, daearyddiaeth ac addysg grefyddol) a'r celfyddydau mynegiannol (celf, drama, cerdd, dawnys ac ymarfer corff). Mae iaith yn gyfrwng sydd yn treiddio i holl feysydd astudio.

Defnyddiwn gyfuniad o ddulliau a sefyllfaoedd dysgu - ffurfiol ac anffurfiol yn ddibynnol ar oedran y plentyn a natur y gwaith. Dysgir rhai agweddau ar lefel dosbarth e.e., cyflwyno gwaith thematig neu ddangos sgiliau newydd. Cyflwynir agweddau eraill ar lefel grŵp (o ddau, tri neu bedwar o blant) lle bydd cyfle i'r plentyn rannu syniadau, i ddadlau, i esbonio a phenderfynu. Bydd cyfle hefyd i'r plentyn weithio ar ei ben ei hun - meithrin sgiliau ymchwilio, meddwl yn rhesymegol, datrys problemau a chyd-weithio a disgyblion ac oedolion eraill.

Ymdrinnir â'r Cwricwlwm yn bennaf trwy'r dull thematig h.y. cynlluniwyd cwricwlwm pob dosbarth i mewn i themâu dros gyfnod. O fewn thema bydd rhestr o weithgareddau fydd yn rhoi cyfle i'r plant feithrin medrau ymchwilio a datrys problemau yn ogystal â datblygu ymhellach sgiliau llafaredd, darllen a rhifedd a gyflwynwyd drwy ddulliau dysgu mwy ffurfiol o fewn ein cyfnodau boreol o ymdrin â'r pynciau craidd. Mae'r dull thematig yn fodd i addysgu plant mewn ffordd ddiddorol, bleserus.

Gallwch fel rhieni gynnig cefnogaeth werthfawr drwy ymddiddori yng ngwaith neu waith cartref y plant a'u helpu i gasglu gwybodaeth.

### **Llythrennedd / Iaith**

Yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg rhoddir cyfle cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yn yr Ysgol hon. Anelwn at y nod o gael pob disgybl yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn diwedd ei yrfa yn yr Ysgol Gynradd.

Dyma'r amcanion penodol:-

- **Y CYFNOD SYLFAEM Dosbarth Meithrin (Derbyn)**  
*Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.*
- *Adeiladu ar y sylfaeni a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.*
- **lau**  
*Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd.*
- **Hwyr ddyfodiaid**  
*Mae cyfle ardderchog i hwyr ddyfodiaid i'r adran lau, ddysgu Cymraeg. Lleolir Uned Iaith ar gyfer Hwyr ddyfodiaid i Ynys Môn yn Llangefni. Yn ddibynnol ar le, caiff y plentyn dreulio tymor cyfan yn yr Uned - uchafrif o 20 gyda dau athro lle cânt eu trwytho yn y Gymraeg yn ogystal â dysgu'r holl bynciau eraill. Ar ddiwedd tymor yn yr Uned bydd y plentyn yn abl i ymuno â dosbarth cyffredin yn yr ysgol gyda meistrolaeth dda o'r ail iaith.*

### **Mathemateg / Rhifedd**



Mae'r gwaith Mathemateg yn yr Ysgol wedi ei seilio ar Gwricwlwm 2008 a'r Fframwaith Sgiliau sy'n cyfeirio at ddulliau dysgu yn ogystal â chynnwys y cwricwlwm a gyflwynir. Rydym fodd bynnag yn gweld gwerth mewn, ac yn defnyddio cynnyrch masnachol ychwanegol i ategu'r gwaith yn enwedig i atgyfnerthu ac i ymestyn gwaith mewn rhai agweddau o'r maes.

Mae gofynion ym Mathemateg yn mynnu cryn bwyslais ar waith ymarferol - a da o beth yw hynny. Y meddylfryd yw - "Rwy'n gwneud felly rwy'n deall". Y prif fwrriad yw bod y plant yn cael pleser wrth ymdrin â Mathemateg a boddhad o'i drafod mewn sefyllfa naturiol.

Mae llawer ohonoch rwy'n siŵr wedi gweld newid sylweddol mewn Mathemateg ers eich dyddiau ysgol chwi . Mae'n debyg mai'r prif wahaniaeth yw'r newid - o wneud tudalen ar ôl tudalen o 'symiau' a olygai gofio'r patrwm neu'r dull o weithio'r ateb - i geisio gwneud synnwyr o broblem arbennig - ceisio deall y broblem ac yna drwy ymresymu dewis ffordd i'w datrys.

Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn cydnabod gwerth hen arferion fel dysgu tablau ac yn y blaen. Mae'n rhaid cael arfau sylfaenol Mathemateg oherwydd hebddynt nid â'r plant ymhell iawn gyda'u gwaith, ac erbyn hyn rhoddir cryn bwyslais ar 'fathemateg pen' a gweithio ar roddi i'r plant strategaethau gwaith pen.

Pwysleisiwn bwysigrwydd cyflwyno'r gwaith yn dwt a thaclus fel mater o falchder personol ac arfer da.

### Gwyddoniaeth



Mae Gwyddoniaeth yn bwnc craidd. Mae plant yr Ysgol Gynradd wedi bod yn gwneud Gwyddoniaeth ers blynyddoedd wrth astudio'r tywydd, byd natur, pethau sy'n arnofio a phethau sy'n suddo, cryfder defnyddiau, chwarae efo batris, magnetau a.y.b.

Yn sylfaenol, meithrin y plant i ddefnyddio'r pum synnwyr yw gwyddoniaeth; dysgu sylwi; trafod, gwneud arbrofion syml a dod i benderfyniad. Bydd y plant yn cael eu profi mewn gwyddoniaeth yn 11 oed.

### Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu




Dyma faes sy'n datblygu'n gyson a cheisiwn fel ysgol sicrhau ein bod yn cadw i fyny â'r newidiadau yma. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio technoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm a'i fod yn arf pwerus yn y broses o addysgu'r plant. Rhoddir cryn bwyslais ar y defnydd o'r 'We' ac mae safle we newydd ar y gweill gennym fel ysgol. Ein cyfeiriad e-bost yw:

- [pennaeth.bodffordd@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.bodffordd@ynysmon.gov.uk) neu
- [pennaeth@bodffordd.anglesey.sch.uk](mailto:pennaeth@bodffordd.anglesey.sch.uk)

Hoffem dderbyn cyfeiriadau e-bost er mwyn defnyddio'r dull hwn o gysylltu â chwi.

## Y DYNIAETHAU



Mae'r maes hwn yn cynnwys Hanes a Daearyddiaeth ac Addysg Grefyddol. Rhoddir pwyslais ar astudio'r amgylchfyd fel rhan o waith prosiect.

Mae Addysg Grefyddol yn cael sylw blaenllaw yn yr ysgol hon. Nid oes cysylltiadau crefyddol uniongyrchol na ffurfiol. Croesewir gweinidogion neu offeriaid lleol i'r ysgol i'n cynorthwyo yn achlysurol. Bydd y plant yn eu tro yn cael mynd i'r capeli a'r eglwys i gymryd rhan mewn gwasanaethau fel Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Y nod yw cael yr ysgol i chwarae rhan lawn a phriodol ym mywyd ysbrydol y gymuned.

### Celf a Dylunio



Mae Celf hefyd yn bwnc Cwricwlwm Cenedlaethol gyda rhaglenni astudio eang ac amrywiol yn ymestyn o gyflwyno a datblygu sgiliau a thechnegau i werthfawrogi Celf.

### Dylunio a Thechnoleg



Dyma bwnc sylfaen arall yn y Cwricwlwm Cenedlaethol fydd yn rhoi cyfle i blentyn ddylunio a gwneud pethau drwy ddefnyddio offer a deunyddiau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd megis y cartref, yr ysgol a.y.b. Rhoddir tasgau i'r plant i'w gwneud ac yna cânt gyfle i arfarnu'r hyn a gynhyrchir.

### Addysg Gorfforol



Ceisiwn sicrhau fod y plant yn cael gwersi Ymarfer Corff a Chwaraeon yn rheolaidd gan y credwn fod ymarfer y corff yr un mor bwysig ag ymarfer y meddwl os yw'r plentyn i dyfu'n berson heini ac iach. Mae gennym offer gymnasteg amrywiol yn y neuadd, cyrtiau ar yr iard ar gyfer pêl rwyd a chae ar gyfer criced, rownderi, pêl droed, rygbi, athletau a mabolgampau. Trefnir gwersi nofio a gwersi sgiliau gemau a.y.b. ym Mhlas Arthur. Anelir at gael pob plentyn yn nofio 25 metr cyn trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd. Cynhelir clybiau gemau'n wythnosol ar gyfer y disgyblion iau. Ceisiwn gymryd rhan mewn cystadlaethau peldroed, criced, a rygbi yn bennaf. Ymdrechwn i sicrhau cydweithio a'r Ysgol Gyfun, Plas Arthur, Swyddogion Chwaraeon a PESS i sicrhau rhaglen lawn o Addysg Gorfforol yn yr ysgol hon. Gwnawn ddefnydd o arbenigwyr i gynnig darpariaeth arbenigol i ddisgyblion yn achlysurol. Gwnawn hefyd ddefnydd o ganolfannau i sicrhau profiadau antur.



## Cerddoriaeth



Bydd pob plentyn yn yr adran iau ar hyn o bryd yn cael cyfle i wneud cerddoriaeth o'r cychwyn cyntaf trwy ganu a defnyddio offerynnau traw. Fel y tyfant cânt gyfle i ddysgu chwarae'r recorder yn ogystal â gwersi canu, gwneud cerddoriaeth greadigol a gwerthfawrogi cerddoriaeth trwy wrando ar gerddoriaeth a dysgu ychydig o hanes cyfansoddwyr.

Gellir ymestyn y ddarpariaeth gerddorol i'r plant hynny sydd yn dangos dawn neu allu arbennig gyda chaniatâd y rhieni trwy ymuno â chynllun gwersi offerynnol yr Awdurdod Addysg sy'n darparu athrawon teithiol i ddysgu plant i chwarae'r ffidil, fflwiwt, clarinét a'r gitâr. Bydd y drefn yma yn cael ei chynnig i ddisgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6.

Codir ffi am y gwersi hyn (£30.00 y tymor ar hyn o bryd) a disgwylir i'r rhieni dalu'r swm yma. Ffracsiwn yw'r ffi o'r cyfanswm mae'r ysgol yn ei dalu am y gwersi hyn. Mae'n swm rhesymol iawn o gofio ei fod yn cynnwys tiwtor a benthyg offeryn. Ymfalchiwn fod nifer o'n plant yn datblygu dawn yn perfformio ac y bydd rhai yn dod yn aelodau o gerddorfa'r sir. Bydd yr ysgol yn cynnig gwersi recorder yn yr Adran Iau. Anogir disgyblion i brynu recorder eu hunain gan yr ysgol. Bydd y gwersi recorder yn rhan o'r ddarpariaeth gerddorol ar gyfer y disgyblion hyn.

## Addysg Personol a Chymdeithasol

Ystyriwn hwn yn faes arbennig o bwysig yn yr oes sydd ohoni lle mae bygythiad cynyddol i fywyd teuluol yn sgil plant yn mynnu mwy o ryddid, llai o arolygaeth, a pheryglon ysmegu, alcohol a chyffuriau, ac wrth gwrs, rhyw.

Mae Addysg Iechyd yn cael sylw blaenllaw yn ein Cwricwlwm gan ddechrau efo glendid personol, yna bwyta'n iach a chadw'n ffit.

**Addysg Rhyw** - Ymdrinnir â'r maes yma o fewn y rhaglen ar Addysg Personol a Chymdeithasol. Mae croeso i rieni ddod i mewn i archwilio copi o'r polisi llawn a'r cwricwlwm perthnasol ar gyfer pob oedran.

## Plant dan 5 / Y Feithrin / Y Cyfnod Sylfaen



Y bwriad yw sicrhau trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrsasol a sensitif y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn.

Amcan addysg feithrin yw hybu datblygiad cyflawn pob plentyn. Mae'n ddyletswydd arnom ddarparu addysg a gofal uchaf posibl fydd yn seilïau cadarn iddynt am weddill eu hoes.

Mae gan blant ifanc angen amser i ddysgu, i symud, i chwarae, i gyfathrebu, i fod yng nghwmni eraill ac i fod ynddyn nhw eu hunain. Er mwyn cyfarfod a'r anghenion yma dylai addysg plant dan 5 oed geisio:

- darparu sicrwydd a chariad.
- annog datblygiad, hunan barch, hyder a theimlad o allu llwyddo.
- galluogi pob plentyn i fynegi ei deimladau ac i ddygymod a phrofiadau anodd, pryder ac ofn.
- hyrwyddo sgiliau cyfathrebu.
- hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb.
- datblygu ymdeimlad o ofod.
- datblygu sgiliau trin a chydlyned llaw a llygad.
- datblygu iaith a sgiliau rhesymu.
- hybu dysgu drwy brofiadau uniongyrchol.
- hybu creadigedd a defnydd o'r dychymyg.

- ddarparu cyfleoedd i blant gyfeirio eu dysgu ac i wneud dewisiadau.

Bydd Llawlyfr y Cyfnod Sylfaen ar gael yn yr ysgol.

### **Anghenion Addysgol Arbennig**

Cwrdd ag anghenion plant ag Anghenion Addysg Arbennig a gweithredu Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig.



Yn unol â Deddf Addysg a'r cod ymarfer, rydym fel ysgol yn ceisio darparu'n briodol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Mae polisi a chofrestr anghenion addysg arbennig yn yr ysgol.

Rhagwelir y bydd yn rhaid ei ddiwygio o dro i dro.

Bydd y plant sydd angen sylw ychwanegol yn cael eu hadnabod drwy :-

- codi consyrn athro / athrawes neu riant.
- ddilyn arweiniad a chanllawiau'r Awdurdod Addysg.
- ddefnyddio dulliau asesu arferol yr ysgol – profion darllen a sillafu.
- casglu canlyniadau profion.
- monitro gwaith y plant.
- monitro patrwm ymddygiad / camymddwyn.
- ddefnyddio gwybodaeth neu bryder gan rieni.
- Drefnu ymweliad ac asesiad Seicolegydd Addysg.

Byddwn yn dilyn y drefn o gofnodi enwau'r plant sydd angen sylw ychwanegol a pharatoi cynlluniau addysg unigol iddynt. Ceir cyswllt cyson a'r asiantaethau sy'n ymwneud a phlant.

Ceisiwn:-

- (a) sicrhau cyfle cyfartal cwricwlaidd a chymdeithasol i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- (b) sicrhau trefn effeithiol ar gyfer adnabod plant ag anghenion addysgol arbennig;
- (c) ddarparu addysg wahaniaethol yn ôl gofyn;
- (ch) weithio mewn partneriaeth â'r rhieni wrth gysidro darpariaeth arbennig;
- (d) sicrhau ymateb ysgol gyfan fel bo athro dosbarth yn cydweithio â'r cyd-gysylltwyd Addysg Arbennig;
- (dd) defnyddio, a chydweithio â'r asiantaethau eraill perthnasol.

Mae'r ysgol yn gweithredu ar dair haen:-

- Blynyddoedd Cynnar
- Ysgol
- Ysgol a mwy
- Cam 3\* / Datganiad

Bydd haen gweithredu yn dibynnu ar ddirifoldeb yr anhawster. Yn aml iawn gallai'r cymorth ar lefel Ysgol yn unig fod mor syml a chaniatáu ychydig bach mwy o amser i blentyn gyflawni tasg. Gobeithiwn fod drefn yr ysgol o adnabod a chwrdd ag anghenion unigolion yn effeithiol. Rydym fel ysgol yn ystyried nad stigma na rhywbeth i bryderu'n ormodol amdano yw ffaith bod plentyn yn profi anhawster gyda gwaith. Holl bwrpas y drefn yw canfod pam a cheisio ateb yr anghenion gorau posib. Yn ystod eu gyrfa ysgol mae gymaint ag 20% o blant angen cefnogaeth wahanol neu sylw arbennig.

### **GWAITH CARTREF**



Nid yw plant y babanod yn cael gwaith cartref ffurfiol. Bydd plant yr adran iau yn derbyn gwaith cartref yn weddol reolaidd.

Rhoddir pwys ar waith cartref rhesymol. Gosodir gwaith cartref ffurfiol i'r plant yn y dosbarthiadau hyn yn achlysurol. Bydd eich plentyn yn gweithio ar themâu neu brosiectau unigol a phan ddigwydd hynny, gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith a diddordeb y plant.

Ambell dro, bydd gweithgaredd arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni a pherthnasau a chymdogion, neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu. Byddwn yn ddiolchgar am gydweithrediad gan y rhieni er mwyn hyrwyddo'r gwaith.

O dro i dro, fe all athro / athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny, gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn wneud y gwaith.

Rhoddir digon o amser i wneud y gwaith yn ôl disgwyliadau'r gwaith cartref a osodir ac yn ôl barn yr athro / athrawes.

Bydd pob plentyn yn cael y cyfle i ddod a llyfr darllen adref ar gyfer ymarfer darllen, ymestyn y darllen a chyd-darllen gyda rhiant / gwarcheidwad.

Eto, gofynnir i rieni ein cefnogi gan fod gwaith cartref yn rhan o gynllun cyfan yr ysgol i godi safonau a chryfhau'r cyswllt rhwng ysgol a'r cartref.

### **CYNGOR YSGOL**

Mae pob ysgol bellach i drefnu cyngor ysgol. Rôl y Cyngor ysgol yw cyfrannu at drefniadaeth a strategaeth yr ysgol o du'r disgyblion. Cynrychiolir disgyblion gan ddau aelod o bob dosbarth o Flwyddyn 2 hyd Blwyddyn 6 yn yr ysgol hon. Cynhelir etholiadau yn flynyddol o gwmpas Pasg i ddewis aelodaeth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd.

#### **Aelodaeth y Cyngor Ysgol 2008/2009**


Deian	Blwyddyn 2
Erin	Blwyddyn 2
Elin	Blwyddyn 3 a 4
Cai	Blwyddyn 3 a 4
Benjamin	Blwyddyn 5 ac Ysgrifennydd
Elisha	Blwyddyn 5
Lydia	Blwyddyn 6
Elliw	Blwyddyn 6 ac Ysgrifennydd
Manon	Blwyddyn 6 a Cadeirydd
Shaun	Blwyddyn 6 a Trysorydd

Mae cytundeb bod y Cyngor Ysgol yn cyfarfod tua unwaith y mis ar ol ysgol. Hysbysir rhieni aelodau'r Cyngor Ysgol o fwriad i gynnal cyfarfodydd o flaen llaw. Bydd Mr Rhys G. Roberts neu Miss Ffion Jones yn bresennol ymhob cyfarfod.

## CYNGHORAU DOSBARTH

Mae gan bob dosbarth Gyngor Dosbarth. Tra bod pob disgybl mewn dosbarth yn aelod o'r cyngor dosbarth, yn yr Adran Iau fe etholir dau gynrychiolydd o bob blwyddyn i gynrychioli barn a syniadau unigolion mewn cyfarfodydd pwyllgor. Ceisir cyfarfod pob wythnos a bydd gan bob aelod o'r dosbarth lais ymhob cyfarfod. Gwaith y cynrychiolwyr fydd adrodd yn ôl a chyflwyno syniadau i'r athro.

## DIOGELWCH



Dylai disgyblion barchu rheolau lechyd a Diogelwch yr ysgol bob amser (Polisi lechyd a Diogelwch). Mae'r rheolau, y camau a gymerir gan staff a'r ceisiadau a wneir i blant i gydymffurfio yn ddiogel yn cael eu gwneud gyda diogelwch eich plentyn chi mewn meddwl. Gwneir pob ymdrech rhesymol i sicrhau diogelwch pawb.

Mae rheolau tan amlwg ymhob ystafell, a cheisir cael ymarferion tan yn dymhorol.

Mae trefn bendant yn ei lle yn unol â gofynion Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau diogelwch pob aelod o staff rhag Trais ac Ymddygiad Bygythiol. Ni dderbynnir unrhyw gamdriniaeth eiriol, unrhyw gamdriniaeth gorfforol, unrhyw achos o hambygio, unrhyw fath o fygythiad neu ymddygiad bygythiol yn erbyn athrawon, staff cefnogol, gweithwyr y gegin, gofaluwraig yr ysgol na disgyblion dan unrhyw amgylchiad. Bydd yr ysgol yn wneud cofnod o ymddygiad o'r fath ac mi fydd Awdurdod Addysg a'r Heddlu yn cael gwybod am yr achos pe byddai angen.

Cyfrifoldeb y plentyn yw unrhyw eiddo personol. Dylid marcio popeth yn glir er mwyn gallu eu hadnabod. Ni ddylid gadael unrhyw beth gwerthfawr yn yr ardaloedd cotiau. Dylid eu rhoi i'r athro / athrawes briodol yn syth. Mae Diogelwch yn fater difrifol. Mae'r Corff Llywodraethol a'r Pennaeth yn ystyried yn fater blaenllaw.

## MATERION MEDDYGOL



Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod gallu Cymorth Cyntaf staff yn gyfredol. Os yw plentyn yn derbyn anaf bydd yr ysgol yn cysylltu â rhiant i ddod i gymryd y plentyn i weld meddyg neu i fynd i'r ysbyty. Mewn achos ble mae plentyn yn taro pen bydd yr ysgol yn ceisio cysylltu yn syth a rhiant i drafod y sefyllfa ac i ddod i mewn i gymryd y plentyn i'w asesu ymhellach. Mewn achos brys a phan nad oes posibil cael gafael ar riant, bydd aelod o staff yn gweithredu ar ran y rhiant ac yn mynd a'r plentyn i weld meddyg neu yn hebrwng y plentyn ar alwad brys am ambiwlans.

Mewn pob achos o ddamwain lle mae plentyn yn brifo neu yn derbyn anaf, bydd yr ysgol a'r Pennaeth yn gwneud cofnod mawl o'r digwyddiad yn unol â threfn yr Awdurdod Addysg a'r Cyngor Sir.

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol a allai effeithio ar eu plentyn. Mae'n hanfodol bod gwybodaeth o'r fath yn cael ei rannu gyda'r ysgol - Y Pennaeth a'r athrawon dosbarth. Bydd cyfle ar ddechrau gyrfa eich plentyn yn yr ysgol i chi rannu unrhyw wybodaeth berthnasol mewn modd cyfrinachol. Mae hyn yn gwbl hanfodol i sicrhau'r driniaeth orau a chywir pe byddai angen. Bydd angen llunio Cynllun Gofal Meddygol dan arweiniad y Nyrs Ysgol ymhob achos.

***Os yw'n anghenrheidiol rhoi moddion i ddisgybl yn ystod oriau ysgol, rhaid llenwi'r ffurflen briodol sydd ar gael o swyddfa'r Pennaeth. Mae'n hanfodol bod y drefn yma yn cael ei dilyn gan bawb gan mai iechyd y plentyn sydd flaenaf yn ein meddwl. Mae copi o'r polisi a'r drefn yng nghefn y llawlyfr yma.***

***Os oes angen mynychu apwyntiad deintydd neu feddyg, buasem yn gwerthfawrogi cael gwneud copi o'r cerdyn apwyntiad ar gyfer y gofrestr presenoldeb. Bydd hyn yn ddigonol i egluro absenoldeb.***

## Iechyd ac Archwiliadau Meddygol



Bydd Nyrs Ysgol, Ymwelwyr Iechyd, Golwg a Chlyw yn trefnu dod i'r ysgol yn achlysurol, i roi prawf golwg i blant a disgyblion newydd yn ôl yr angen. Ceir ymweliadau gan Ddeintydd Ysgol weithiau, bydd yr Awdurdod Iechyd yn profi clyw'r plant yn flynyddol hefyd. Bydd yr ysgol hefyd yn trefnu ymweliadau gan aelodau o'r Bwrdd Iechyd i sgwrsio a'r disgyblion os oes cyswllt a gwaith y dosbarthiadau o bryd i'w gilydd. Mae'r ysgol yn rhan o'r fenter Hybu Ysgolion Iach ac yn weithgar iawn yn ei hymdrechion i ddod yn Ysgol Iach. Caiff rhieni eu hysbysu o flaen llaw o ymweliadau ac archwiliadau meddygol sy'n ymwneud a'u plant.

## Clwb Brecwast cyn ysgol



**Mae gan Ysgol Gymuned Bodffordd Glwb Brecwast bob bore. Anti Einir, Anti Eleanor ac Anti June sydd yn cynnal y clwb. Bydd Anti Einir ac Anti Eleanor yn ei crysau melyn 'Clwb Brecwast Ysgol Bodffordd' yn sicrhau bod pawb sydd i gael brecwast yn cael bwyd a gofal.**


*Bydd y brecwast am ddim i'r plant ac ar gael rhwng 8.15yb a 8.30yb, yn cynnwys grawnfwyd a llefrith, darn o ffrwyth neu sudd oren neu sudd afal a thafell o dôst.*

*I fanteisio ar y brecwast, bydd yn rhaid i'r plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.30yb. Eich cyfrifoldeb chi fel y rhiant fydd sicrhau fod disgyblion yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd. Ni fydd brecwast yn cael ei gynnis ar ôl 8.30yb, oni bai fod amgylchiadau arbennig. Cyfnod clirio, cadw a thacluso sydd rhwng 8.30 a 8.45am. Dylai'r cyfnod brecwast ddod i ben erbyn 8.45am.*

*Nid yw'r Awdurdod yn addasu contractau cludiant yr ysgo i gludo plant i'r ysgol i gael brecwast.*

*Os byddwch am fanteisio ar y cynnis, bydd disgwyl i chwi gymryd brecwast bob dydd am y tymor. Os nad ydych am fynychu'r sesiynau brecwast o'r cychwyn, cewch gynnig eto i ymuno ar ddechrau bob tymor. Edrychwch allan am y llythyr cais brecwast.*

## PRYDAU BWYD / AMSER CINIO



Y Gwasanaeth Arlwyfaeth EDEN sy'n gyfrifol am ginio ysgol bob dydd. Paratoir prydau bwyd iachus a maethlon ar y safle. Mae'r fwydlen wedi newid yn arw iawn ac mae cylch tair wythnos i'r fwydlen bwyd.

***Derbynnir arian cinio ar Ddydd Llun a Dydd Mawrth yn wythnosol. Os derbynnir arian cinio ar ol y dyddiau hyn ni fydd y taliadau yn cael eu proseu tan yr wythnos ganlynol.*** Gofynnir yn garedig i chi gadw i'r drefn i hwyluso'r gwaith o gadw cofnod trefnus. Darperir amlenni talu Arian Cinio pwrpasol i chi (amlenni pwrpasol i'w cael o'r ysgol drwy'r cler). Cesglir yr arian cinio gan Mrs Mandy Evans.

Ceir ffurflen briodol ar gyfer gwneud cais am ginio di-dâl yn swyddfa'r Pennaeth.

Gofynnir yn garedig am wythnos o rybudd pan fo'r trefniadau cinio yn cael eu newid am unrhyw reswm.

Cost Cinio - £8.75 y disgybl yn wythnosol.

### **Y ddarpariaeth cinio ysgol ddyddiol**

Mae llawer o son wedi bod yn y cyfryngau a safonau cinio ysgolion yn Lloegr ar angen i ddarparu prydau bwyd llesol a digonol o fewn costau penodol. Mae'r Cynulliad wedi cymryd camau yng Nghymru i wella'r ddarpariaeth cinio hefyd. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymateb i hyn mewn modd a ystyrir yn briodol a cwmni EDEN sydd yn darparu'r bwyd cinio.

Gan ein bod fel ysgol yn rhan o'r Cynllun Hybu Ysgolion Iach ac yn gweithio'n galed i sicrhau statws Ysgol Iach, gofynnwn yn garedig i rieni plant sydd yn dymuno dod a pheycyn bwyd i'r ysgol ar gyfer cinio baratoi pecyn bwyd iach.

Pe byddai'n ddymuniad newid trefniadau bwyta cinio eich plentyn, gofynnwn yn garedig am bythefnos o rybudd ac i'r drefn newydd ddod i rym ar ddechrau wythnos lawn er mwyn hwyluso cadw cofnodion a.y.b. Os oes newid mewn sefyllfa deuluol all sicrhau hawl i gael cinio am ddim hybir chwi i gysylltu â ni i wneud trefniadau perthnasol.

### **Cost cinio'r dydd = £1.75 y dydd (y gost ym Medi 2008)**

Mae'r gost cinio wythnosol yn agored i newid o gwmpas Mis Ebrill yn ôl penderfyniad y Cyngor Sir a Gwasanaeth Arlwyfaeth Masnachol Gwynedd a Môn. Cewch rybudd o unrhyw newid pryd cawn wybod ein hunain.

Mae rhai disgyblion yn dod a bocs bwyd ar gyfer eu cinio. Yn yr hinsawdd bresennol o bryder am ieuchyd ac arferion bwyta plant yn genedlaethol, gofynnwn i rieni ystyried yn ofalus ac yn synhwyrol beth yw cynnwys y bocs bwyd 'brechdanau' y plant hynny sydd ddim am dderbyn cinio ysgol. Mae'r Sir yn cychwyn datgan pryder am gynnwys bocsys bwyd plant.

### **BYRBRYDAU**



Mae'r ysgol hon yn awyddus iawn i gynnal Polisi Ysgol Iach a Hybu Iechyd. Fel rhan o'r polisi hwn nid yw'r plant yn cael bwyta creision, siocled, pethau da nac yfed pop yn ystod amser chwarae. Caniateir ffrwythau neu fyrbryd cyffelyb iach. Mae'r ysgol yn rhan o'r Cynllun Ysgol Iach. Golyga hyn bydd yr ysgol yn hyrwyddo nifer o weithgareddau i hybu agweddau o fyw'n iach. Gofynnir yn garedig i ddisgyblion gadw at yr arfer o fwyta ffrwyth neu fyrbryd iach ac i chwi fel rhieni gyflyru eich plant i gadw at y drefn. Gofynnwn yn gwrtais i blant osgoi eitemau siocled

### **CYSWLLT YSGOL A RHIENI**



### **Nosweithiau i Rieni**

Trefnir 2 Noson Agored yn flynyddol. Gweithredir y drefn ganlynol. Gwneir hyn i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o amser ac i hyrwyddo tryloywder

<b>Tymor yr Hydref</b>	Gwahoddir rhieni plant i ddod i gyfarfod a'r athrawon i drafod Asesiad Sylfaen ym mherthynas disgyblion y Dosbarth Derbyn, sut mae plentyn wedi ymgartrefu yn ei ddosbarth newydd, unrhyw anawsterau a gwaith ac anghenion addysgol ac unrhyw bryder parthed ymddygiad - (yn ôl yr hyn sy'n berthnasol i'r unigolyn dan sylw). Bydd yr ysgol yn gwahodd
------------------------	---

	rhieni drwy lythyr.
<b>Tymor yr Haf</b>	Cyfarfod oes oes i drafod cynnwys yr adroddiad blynyddol i rieni a thrafod gwaith a cyfle in weld gwaith y flwyddyn. Y tymor hwn hefyd bydd gofyn trafod a rhieni Blwyddyn 6 materion perthnasol i drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Os na allwch fynychu'r cyfarfod a drefnir, neu os dymunwch drafod cynnyd eich plentyn, yna mae croeso i chi gysylltu i wneud trefniadau eraill. Bydd y staff yn ddigon hyblyg i drefnu amser gwahanol fydd yn bosibl i chi. Cofiwch hefyd gallwch godi unrhyw bryder a threfnu sgwrs ar adegau eraill. Peidiwch a gadael pethau tan gewch glywed gair neu mae nosweithiau agored yn cyrraedd. Mae'r athrawon yn yr ysgol hon yn bersonau hawdd dod atynt a phob un yn barod i wrando er bydd eich plentyn.

Rhoddir pwyslais ar gydweithio i fentro sicrhau'r addysg orau. Mae'n bwysig bod rhieni yn cymryd diddordeb byw yng ngwaith eu plant er mwyn hyrwyddo perthynas dda rhyngom. Mae'r bartneriaeth yn hanfodol i geisio cyrraedd y nod. Mae'n dibynnu ar gysylltiadau da a chydweithio iach rhwng y cartref a'r ysgol bob amser. Mae hyrwyddo a chynnal perthynas dda rhwng yr ysgol a bob rhiant yn hanfodol i ni.

Byddwn yn anfon llythyrau / cylchlythyrau yn weddol aml drwy law eich plant e.e. caniatâd i fynd ar daith addysgol, rheswm am absenoldeb, gwahoddiad i weithgareddau a newyddion am yr ysgol a'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Mae yna nifer o achlysuron y byddwn yn eich gwahodd i ddod draw i'w cefnogi a manteisio arnynt i ddod i adnabod yr ysgol a'r athrawon.

Croesawn rieni i ddod i drafod materion o bwys. Gofynnir yn garedig i rieni gysylltu â'r Pennaeth o flaenllaw i drefnu amser cyfleus i gyfarfod.


### **PERTHYNAS YR YSGOL A'R GYMUNED**



Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned ddiwylliannol fyw. Mae'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned yn un gwerthfawr ac yn un i ymfalchïo ynddi.

Rhoddir cryn bwyslais ar gydweithio i sicrhau fod plant yn ymwybodol o'u hamgylchfyd ac o'u cyfrifoldeb tuag at y gymuned ac at gyd ddyn. Ceisiwn feithrin parodrwydd i gynorthwyo achosion da yn lleol ac yn genedlaethol a byd eang; achosion fel y Pensiynwyr, Cymdeithas y Deillion, Plant Mewn Angen, N.S.P.C.C., Marir Curie, 'Jeans for Genes', Cymorth Cristnogol, Comic Relief, Curiad Calon Cymru, Bad Achub RNLI, Ysbyty Gwynedd - ward Dewi ac Ysbyty Plant Alder Hey a.y.b. Nid yw pob un o'r elusennau hyn yn derbyn ein cefnogaeth pob blwyddyn. Daw tro pob un yn ei drefn a'i amser. Er bod casglu arian yn bwysig pwysleisiwn y ffaith mai meithrin agweddau cyfrifol ac ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol yw'r bwriad. Peth cwbl wirfoddol yw cyfrannu tuag at yr elusennau. Ni roddir pwysau ar unrhyw un i gyfrannu. Yr un nod sydd gan bob un ohonom yn y diwedd, sef darparu'r addysg orau bosibl i'ch plant.

## GWISG ADDYSG GORFFOROL



Disgwylir i'r plant newid i ddillad addas cyn eu gwrs Addysg Gorfforol ac yn ôl i'w dillad arferol ar ddiwedd y wers. Byddem yn gadael i chi wybod pa ddiwrnod y mae eich plentyn yn cael gwersi Addysg Gorfforol. Cewch amserlen Addysg Gorfforol ar ddechrau pob blwyddyn.

## GEMWAITH



Am resymau diogelwch amlwg ni chaniateir gwisgo gemwaith yn yr ysgol. Gellir gwisgo oriawr a stydiau clust, ond ni chaniateir mathau eraill o glustlysau. Os nad yw plentyn yn tynnu stydiau clustiau, yna bydd yn rhaid i'r plentyn osod plaster / tap dros y stydiau.

## GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL / WEDI YSGOL



O dro i dro fe drefnir gweithgareddau tu allan i oriau ysgol, ac fe restrir rhai o'r rhain isod. Byddent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ac maent yn gwbl agored i bawb sydd, ym marn y prifathro, yn ddigon aeddfed i ymgymryd â'r gwaith. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwyllo plant ar derfyn sesiynau ar ôl oriau ysgol, a gofynnir i rieni sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.

Yn ychwanegol i weithgareddau arferol yr ysgol, cynigir y canlynol gan yr ysgol a drwy drefniant ag unigolion yn y gymuned gyda'r nos :-

CLWB URDD  
Clwb Gwyddbwyll a Drafftiau  
Clwb Recorder  
Clwb Rygbi  
Clwb Peldroed



**URDD GOBAITH CYMRU**

Cangen Adran Bentref o'r Urdd sydd yn cyfarfod bob yn ail brynhawn Llun i blant yr ysgol.

## GWEITHGAREDD ERAILL YN YSTOD Y FLWYDDYN

Bydd y gweithgareddau canlynol yn cael eu cynnig yn yr ysgol hefyd. Bydd yr ysgol yn rhoi hwb i blant gefnogi rai pethau o fewn y gymuned leol hefyd:

- ***Gweithgareddau Antur – Canolfan Conwy i'r plant hynaf***
- ***Gweithgareddau Antur Ysgol***
- ***Ymweliadau a Gweithdai Gwyddoniaeth Yr Wylfa***
- ***Eisteddfod Gadeiriol Bodffordd***
- ***Paratoadau tuag at Eisteddfodau'r Urdd***
- ***Gweithgareddau Adran Bentref Bodffordd o'r Urdd***
- ***Aelodaeth o glwb Sbri Di-ri a Sbondonics***



- *Gemau Tim / Chwaraeon yn erbyn ysgolion eraill mewn cystadlaethau ac o fewn yr ysgol fel mae cyfle - rygbi, peldroed, pelrwyd, rownderi, nofio, athletau, rhedeg*
- *Gemau chwaraeon cyfeillgar a chystadleuol yn erbyn ysgolion eraill*
- *Clwb rhedeg 30,40,50*
- *Gweithgareddau / Gwersi Diogelwch – croesi'r ffordd, cerdded yn ddiogel, beicio diogel, teithio diogel a.y.b.*
- *Ymweliad a Phentref Peryglon*
- *Gweithgareddau hybu iechyd a ffitrwydd*
- *Cynllun Hybu Ysgolion Iach*
- *Cynllun Ysgolion Gwyrdd Gwynedd a Môn*
- *Cynllun Ysgolion Eco*
- *Masnach Deg*
- *'Tress For All'*
- *Cynllun Swyddogion Addysg Heddlu Gogledd Cymru - cynllun hybu osgoi ymddygiad gwrth cymdeithasol*
- *Cynllun Diogelwch y Ffyrdd – Swyddogion Diogelwch*
- *Gwersi Croesi'r Ffordd*
- *Gwersi Beicio – hyfforddiant newydd ar y ffordd fawr*
- *Cynlluniau Cymunedol Peldroed a Rygbi pan dawn gynnig - rhan o gynllun hybu osgoi ymddygiad gwrth cymdeithasol*
- *Hybir plant i ymuno a Cherddorfa'r Sir*
- *Hybir plant ymuno a Chôr Ysgolion Cynradd Môn a Tim Bach*
- *Ymweliadau gan gwmnïau drama e.e. Cwmni'r Fran Wen*
- *Gweithdai drama*
- *Helpu'r gymuned drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau a chyngherddau*
- *Gwneud defnydd o'r amgylchedd lleol drwy brofiadau gwaith maes*
- *Cyngherddau, cyflwyniadau neu wasanaethau Nadolig / Cyflwyniadau Diolchgarwch / Dathliadau arbennig*
- *Ymweliadau a theatrau, safleoedd hanesyddol*
- *Sgyrsiau gan ymwelwyr*
- *Gwasanaethau arbennig*
- *Cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol*
- *Ffeiriau llyfrau*
- *Noson Garolau'r Urdd*
- *Gweithgareddau amrywiol y Pwyllgor Ffrindiau a Rhieni'r Ysgol*
- *Y Ffeiriau Haf a Nadolig*
- *Nosweithiau Bingo*
- *Bowndio Noddedig*

### **Mudiad Ysgolion Meithrin Bodffordd**

Er nad oes cyswllt uniongyrchol rhwng yr ysgol a'r Mudiad lleol tu hwnt i'r ffaith fod y Mudiad yn cwrdd ar y safle ac yn Y Ganolfan, mae'r ysgol yn falch o'u cyswllt anuniongyrchol a'r cydweithio sydd rhwng yr ysgol ac arweinwyr y Mudiad Meithrin sy'n cyfarfod yn y Neuadd Gymuned bob bore Llun, Mawrth, Mercher a Gwener.

### **Pwyllgor Rhieni a Ffrindiau Ysgol Bodffordd**

Mae gwaith a chefnogaeth y gymdeithas yn bwysig iawn i ni fel ysgol – beth am ddod draw i'n gweithgareddau a'n cyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn un gweithgar ac yn gefnogol iawn. Trefnir gweithgareddau codi arian tra diddorol a gwahanol. Trefnir nosweithiau cymdeithasol a nosweithiau addysgol. Hoffem weld llawer mwy o rieni yn cefnogi'r cyfarfodydd. Croesewir rhieni disgyblion newydd bob amser. Edrychwn ar weithgareddau'r pwyllgor fel ffordd dda i ddod i adnabod rhieni ac i rieni ddod i adnabod athrawon a staff yr ysgol.

### **EIDDO'R YSGOL**

Disgwylir i bawb sy'n gwneud defnydd o'r ysgol barchu eiddo'r ysgol bob amser. Disgwylir i unrhyw un yn euog o ddifrodi eiddo'r ysgol yn fwriadol neu drwy ei gamddefnyddio, ddigolledu'r ysgol am y difrod hwnnw.

### **EIDDO PERSONOL**

Nid yw'r Corff Llywodraethol yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled na difrod i eiddo personol plentyn, rhiant na pherson arall sydd ar dir yr ysgol unrhyw amser neu unrhyw fan arall mewn perthynas â gweithgaredd a drefnwyd gan yr ysgol.

Ni ddylai plant ddod ag arian i'r ysgol os nad yw'r arian yn daliad cinio neu unrhyw daliad / gyfraniad a wnaed cais swyddogol amdano.